# 5. Penllergare Valley Woods
# Coed cwm Penllergaer



## Trail Information / Gwybodaeth am y Llwybr

**START / DECHRAU (GR/CG - SS 623 991)**
At Penllergare Trust visitor centre off the A48
Yng nghanolfan ymwelwyr Ymddiriedolaeth Penllergare oddi ar yr A48
(SA4 9GS)

**PARKING / PARCIO**
Purpose built car park with toilets and café
Maes parcio pwrpasol â thoiledau a chaffi

**PUBLIC TRANSPORT / CLUDIANT CYHOEDDUS**
Bus stop 900m to the east on A48
Safle bws 900m i'r dwyrain ar yr A48

*Steep sections, muddy paths, natural obstacles, steps. Shorter routes on site. Maps available from visitor centre.*

*Rhannau serth, llwybrau mwdlyd, rhwystrau naturiol, grisiau. Llwybrau byrrach ar y safle. Mapiau ar gael o'r ganolfan ymwelwyr.*

*Once the private estate of John Dillwyn Llewelyn, the site is a mosaic of ancient woodland, Victorian plantings and modern forestry.*

The route skirts the north end of the site then heads south through the aptly-named Bluebell Wood before descending a steep stream valley with splendid specimens of planted conifers. Follow the river through semi-natural ancient woodland crossing the first bridge (Sapper's Bridge) to gain a wide track which brings you (via a short detour) to the lower lake.

Back on the main track turn right just after power-lines up the slopes of Graig Neddfwch to a fine viewpoint over the varied woodland canopy. The route then descends to join the old Carriage Drive for the original mansion. Follow this until a small path drops steeply to the right to join the valley floor track leading past the waterfall and upper lake to complete the circuit.

*Ac yntau'n ystâd breifat John Dillwyn Llewelyn ar un adeg, mae'r safle'n amrywiaeth o goetir hynafol, coed a phlanhigion a blannwyd gan y Fictoriaid a choedwigaeth fodern.*

Mae'r llwybr yn dilyn ymyl pen gorllewinol y safle cyn troi i'r de trwy Bluebell Wood sydd wedi'i enwi'n addas, cyn disgyn trwy ddyffryn nant serth gydag enghreifftiau gwych o gonwydd wedi'u plannu. Dilynwch yr afon trwy goetir hynafol lled-naturiol gan groesi'r bont gyntaf (Sapper's Bridge) i gyrraedd llwybr llydan a fydd yn eich arwain (trwy ddargyfeiriad byr) i'r llyn isaf.

Yn ôl ar y prif lwybr, trowch i'r dde yn union ar ôl y llinellau pŵer gan ddringo llethrau Craig Nydfwch i lecyn sy'n rhoi golygfa braf dros ganopi'r coetir. Mae'r llwybr wedyn yn dilyn yr hen rodfa a oedd yn arwain at y plasty gwreiddiol. Dilynwch hon nes bod llwybr bychan yn disgyn yn serth i'r dde i ymuno â llwybr llawr y dyffryn gan fynd heibio i'r rhaeadr a'r llyn uchaf i gwblhau'r gylchdaith.

